❖ Yr Adfent - Y Pethau Olaf

Darllen: Mathew 24:32–35

Dyma droi heddiw at air dieithr – eschatoleg! Beth ar wyneb y ddaear ydi ystyr hwn meddwch chi? Mewn gair, ei ystyr yw – dysgeidiaeth ar y pethau olaf. 'Eschata' – yn yr iaith Roeg – yn golygu 'pethau olaf', a'r 'oleg' ar ddiwedd y gair yn golygu 'dysgeidiaeth'. Ond, meddwch chi, 'dydyn ni fawr nes i'r lan.' A dyma'r meddwl yn dechrau crwydro i ystyried y bobl sy'n darogan fod diwedd y byd i ddigwydd ar amser penodol, neu'r bobl welwch chi yn ein dinasoedd mawr yn cario poster ac arno'r geiriau, 'Mae diwedd y byd yn agos'. Bob mis o'r bron, mae rhywun yn darogan fod y diwedd yn mynd i ddigwydd ar amser arbennig, ar ddiwrnod arbennig a mis arbennig. Ond rydyn ni yma o hyd!

Mae'r Beibl yn llawn o gyfeiriadau at eschatoleg, ac yn ystod tymor yr Adfent mae'n anodd iawn anwybyddu'r pwnc. Gofynnodd y disgyblion i Iesu, 'Dywed wrthym pa bryd y bydd hyn, a beth fydd yr arwydd o'th ddyfodiad ac o ddiwedd amser?' (Mathew 24:3). Mae'n mynd ymlaen i'w hateb trwy ddweud y bydd cenedl yn codi yn erbyn cenedl, y 'tywyllir yr haul, ni rydd y lloer ei llewyrch, syrth y sêr o'r nef, ac ysgydwir nerthoedd y nefoedd' (Mathew 24:29). Digon i godi braw ar unrhyw un! Trown at ddysgeidiaeth Iesu i'n helpu i ddeall y cysyniad.

Geiriau Iesu ar ddechrau ei weinidogaeth oedd, 'Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl' (Marc 1:15). Yng ngweinidogaeth Iesu rhagwelir yn y presennol deyrnas Dduw yn y dyfodol. Mae'r deyrnas eschatolegol eisoes wedi dod ym mywyd Iesu. Hyn oedd prif destun ei genhadaeth a'i genadwri. Dyma bregethu grymus a chwyldroadol, yn enwedig i'r gwrandawyr cyntaf. Doedd dim rhyfedd eu bod yn heidio o bob cyfeiriad i wrando ar ei genadwri a'i neges. Chwilio am deyrnas ar ddiwedd amser oedden nhw, y tu hwnt i hanes a thu hwnt i amser. Teyrnas y byddai ewyllys Duw yn cael ei weithredu ynddi yn y nefoedd, ac felly ar y ddaear hefyd. Dyna'r adeg y byddai pechod yn cael ei faddau, tangnefedd Duw yn cael ei gyflawni, a bywyd newydd ar ddechrau. A dyna lle mae Iesu'n cyhoeddi i'r byd a'r betws fod y deyrnas hon eisoes ymhlith y bobl, 'Y mae'r amser wedi ei gyflawni'. Hynny yw, mae nerthoedd yr oes oedd i ddod yn bresennol yn awr, ym mherson Iesu.

Wrth gwrs, yn nyddiau Iesu roedd pobl yn gallu gweld hyn yn digwydd o ddydd i ddydd. Roedd y cloff yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau, y dall yn gweld, a'r meirw yn cael eu hadfer hyd yn oed. Roedd pwerau'r oes i ddod yn fyw yng Ngalilea. Roedd teyrnas Dduw yn bresennol, a Duw yn Iesu yn teyrnasu. Wedi'r atgyfodiad, llifodd y pwerau hyn i fywydau'r apostolion. Yn Llyfr yr Actau mae digwyddiad ar ôl digwyddiad yn cael ei ddatgelu o weithredoedd deinamig yr apostolion cynnar. Ond hyd yn hyn dydi'r stori i gyd ddim wedi digwydd, a fydd hi byth hyd nes y bydd teyrnas Dduw yn dod yn ei chyfanrwydd.

Myfyrdod pellach:
Ydych chi'n credu fod y pŵer i orchfygu casineb, chwerwder a phechod yn eiddo i ni yn y presennol?

Beth sy'n ein rhwystro rhag caru ein gilydd?